**Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau**

**Protocol Amodol – Cynrychiolaeth Ryngwladol a Chydgysylltu**

## Egwyddorion

- Pwrpas y protocol hwn yw disgrifio sut y sicrheir bod safbwyntiau'r DU wedi'u cydgysylltu mewn fforymau rhyngwladol a pha arbenigedd cenedlaethol sy'n ofynnol er mwyn cynrychioli'r DU yn y fforymau hyn.
- Caiff swyddi gwag a chynrychiolwyr y DU o Defra, DAERA, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru eu cytuno gan y Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau (PVSC), a lle bo angen, â chymorth y Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol (NLSC).

## Protocol

1. Ar gyfer pob cyfarfod rhyngwladol yr eir iddo, mae'r cynrychiolydd arweiniol perthnasol ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn gyfrifol am drefnu rhag-gyfarfod gyda chydweithwyr yn y DU ac arbenigwyr i gytuno ar safbwynt y DU ar adeg addas ac o leiaf wythnos cyn y cyfarfod.
2. Bydd y cynrychiolydd arweiniol yn sicrhau bod papurau perthnasol yn cael eu dosbarthu/darparu cyn y rhag-gyfarfod hwn pan fyddant ar gael.
3. Caiff safbwyntiau a sylwadau'r DU eu cytuno yn y rhag-gyfarfodydd hyn yn unol â'r cyfarwyddyd polisi a bennwyd gan y PVSC a'r cyngor technegol a ddarparwyd gan yr NLSC ac is-bwyllgorau technegol perthnasol, cyn i'r DU gymryd rhan yn y cyfarfod fforwm rhyngwladol.
4. Caiff papurau sydd i'w cytuno drwy ohebiaeth (yn hytrach na rhag-gyfarfod) eu hanfon at aelodau'r PVSC neu eu person enwebedig perthnasol mewn da bryd er mwyn gallu cyflwyno sylwadau.
5. Ar ôl y cyfarfod rhyngwladol, mae'r cynrychiolydd arweiniol yn gyfrifol am sicrhau adroddiad addas yn ôl, cyn pen 10 diwrnod gwaith, ynglŷn â chanlyniad y cyfarfod, fel arfer ar ffurf adroddiad cyfarfod i'w ddosbarthu i'r PVSC ac NLSC o leiaf, ac i gydweithwyr addas eraill o Defra, DAERA, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb perthnasol.
6. Darperir cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd hyn gan gynrychiolwyr o'r awdurdodau perthnasol yn y DU sydd ag arbenigedd addas a bennwyd gan yr NLSC neu'r PVSC lle bo'n briodol fel y nodir yn y tabl a ganlyn. Os oes mwy nag un cynrychiolydd yn mynd i'r cyfarfod, yna cytunir ar gynrychiolydd arweiniol cyn mynd yno.

| **Sefydliad** | **Cyfarfod** | **Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr** |
|---|---|---|
| Undeb Rhyngwladol dros Ddiogelu | Cyngor | Arbenigwr polisi PVR |
| | Pwyllgor Ymgynghori | Arbenigwr polisi PVR |

| **Sefydliad** | **Cyfarfod** | **Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr** |
|---|---|---|
| Amrywogaethau Newydd o Blanhigion (UPOV)[1] | Pwyllgor Gweinyddol a Chyfreithiol (CAJ) | Arbenigwr polisi PVR |
| | Pwyllgor Technegol | Arbenigwr cyflawni PVR |
| | Gweithgor Technegol Cnydau Amaethyddol (TWA) | Arbenigwr cyflawni PVR ar gyfer cnydau amaethyddol |
| | Gweithgor Technegol Planhigion Addurniadol a Choed Coedwigoedd (TWO) | Arbenigwr cyflawni PVR ar gyfer planhigion addurniadol a choed coedwigoedd |
| | Gweithgor Technegol Llysiau | Arbenigwr cyflawni PVR ar gyfer llysiau |
| | Gweithgor Technegol Cnydau Ffrwythau (TWF) | Arbenigwr cyflawni PVR ar gyfer ffrwythau |
| | Gweithgor Technegol ar ddulliau a thechnegau profi (TWM) | Arbenigwr cyflawni PVR ar gyfer BMT |
| | Pwyllgor Golygyddol Mwy | Arbenigwr cyflawni PVR |
| | Cyfarfod ar ddatblygu ffurflen gais electronig | Arbenigwr cyflawni PVR a pholisi PVR |
| | Gweithgor ar system gydweithredu ryngwladol bosibl | Arbenigwr polisi PVR |
| | Gweithgor ar ddeunydd a gynaeafwyd a defnydd anawdurdodedig o ddeunydd lluosogi (WG-HRV) | Arbenigwr polisi a chyflawni PVR |
| | Gweithgor ar ganllawiau ynghylch ffermwyr ar raddfa fach mewn cysylltiad â defnydd preifat ac anfasnachol (WG-SHF) | Arbenigwr polisi a chyflawni PVR |
| Cynlluniau Hadau y Sefydliad ar | Cyfarfod blynyddol yr OECD | Arbenigwr cyflawni ac arbenigwr polisi marchnata hadau |

| Sefydliad | Cyfarfod | Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr |
|---|---|---|
| gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) | Cyfarfod Gweithgor Technegol Cynlluniau Hadau yr OECD | Arbenigwr cyflawni/arbenigwr polisi marchnata hadau |
| | Gweithgor technegol ad-hoc, ar wahoddiad | Arbenigwr cyflawni/arbenigwr polisi marchnata hadau |
| Cymdeithas Ryngwladol Profi Hadau (ISTA) | Cyfarfod Blynyddol ISTA | Prif Swyddog(ion) o OSTS[2] (s) y DU yn cael eu cydlynu gan Defra |
| | Cyngres ISTA | Prif Swyddog(ion) o OSTS (s) y DU yn cael eu cydlynu gan Defra[3] |
| Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig | Gweithgor ar safonau ansawdd amaethyddol a gymhwysir i fasnach mewn tatws hadyd | Arbenigwr cyflawni/polisi marchnata tatws hadyd |
| Cymdeithas Asiantaethau Ardystio Hadau Ewrop (ESCAA) | Cyfarfod blynyddol | Arbenigwyr cyflawni ardystio |
| Llwyfan VCU Ewropeaidd | Cyfarfod grŵp arbenigwyr EU-VCU | Arbenigwr mewn profi/cofrestru amrywogaethau |

[1] At ddibenion goruchwylio, bydd yr arweinydd tîm ar gyfer cyflawni PVR yn y DU yn berson cyswllt a enwyd ar gyfer pob un o'r grwpiau/gweithgorau technegol.

[2] Gorsaf Brofi Hadau Swyddogol

[3] Yr aelod sy'n pleidleisio fydd y Prif Swyddog â'r gwasanaeth hiraf yn OSTS y DU oni chytunwyd yn wahanol.

7. Bydd ysgrifenyddiaeth y PVSC yn cadw rhestr o ymgeiswyr addas (wedi'u pennu gan yr NLSC neu'r PVSC lle bo'n briodol) ar gyfer presenoldeb tebygol, ac unigolion y mae'n ofynnol iddynt gydgysylltu â hwy. Bydd y rhestr hon hefyd yn cynnwys rhestr ddosbarthu ar gyfer yr adroddiadau yn ôl i'r swyddfa, yn unol â pharagraff 5.

8. Os bydd angen mynd i gyfarfodydd eraill, ar wahân i’r rhai a ddisgrifir yn y tabl ym mhwynt 6, cytunir ar safbwynt y DU fel y nodir ym mhwyntiau 1 i 4 uchod ac adroddir yn ôl fel ym mhwynt 5.

9. Ariennir presenoldeb gan yr Awdurdod y mae’r cynrychiolydd yn perthyn iddo[1]. Dylid darparu cyfleoedd i gydweithwyr eraill fynd i gyfarfodydd fel rhan o’u hyfforddiant, yn enwedig mewn achosion o gyfarfodydd hybrid a rhithwir a allai gynnig cyfle i uwchsgilio heb gynnydd sylweddol mewn costau.

10. Dylid hysbysu’r PVSC a’r NLSC os derbynnir cynnig i gynnal unrhyw un o’r cyfarfodydd a ddisgrifir yn y tabl ym mhwynt 6 yn y DU, a dylid ymdrechu i sicrhau bod pob cyfranogwr yn gallu cael cynrychiolwyr mewn unrhyw gyfarfod rhyngwladol perthnasol a gynhelir yn y DU.

[1] Mae Defra yn ariannu presenoldeb AFBI yng Ngweithgorau Technegol UPOV unwaith bob 3 blynedd.